Y TEULU

ARDDATGANIAD I'R BYD

Y Brif Lywyddiaeth a Chyngor y Deuddeg Apostolion o Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diweddar

Ymrydim ni'r brif Lywyddiaeth a Chyngor y Deuddeg Apostolion o Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diweddar yn arddatganu'n ddifrifol fod priodas rhwng dyn a menyw wedi'i hordeinio gan Dduw a bod y teulu'n ganolog i gynllun y crëwr ar gyfer tynged dragwyddol Ei blant.

Mae pop bod dynol, yn wryw ac yn fenyw, wedi'u creu yn ndelw Duw. Mae pop un yn fab neu'n ferch ysbrydol annwyl i rieni nefol, ac felly, mae gan bob un natur a thynged ddwyfol. Mae rhyw yn nodwedd hanfodol o anianaeth a diben unigol—cyn—farwel, marwol a tragwyddol.

Yn y deyrnas cyn-marwol, roedd meibion a merched ysbrydol yn adnabod ac yn addoli Duw fel eu Tad Tragwyddol, ac yn derbyn Ei gynllun a fyddai'n galluogi Ei blant i gael corff corfforol ac ennill profiad daearol er mwyn symud ymlaen tuag at berffeithrwydd ac yn y pen draw, wireddu eu tynged ddwyfol fel etifeddion bywyd tragwyddol. Mae cynllun dwyfol hapusrwydd yn galluogi parhau a pherthnasoedd teuluol y tŷ hwnt i'r bedd. Mae ordinhadau a chyfamodau cysegredig sydd ar gael mewn temlau sanctaidd yn ei gwneud yn bosib i unigolion ddychwelyd i bresenoldeb Duw ac i deuluoedd gael eu huno am byth.

Roedd y gorchymyn cyntaf a roddodd i Adda ac Efa yn ymwneud a'u potensial i fod yn rhieni fel gŵr a gwraig. Rydym yn datgan bod gorchymyn Duw i'w blant luosi ac ail-boblogi'r ddaear yn parhau mewn grym. Datganwn ymhellach fod Duw wedi gorchymyn na ddylid defnyddio pwerau cysegredig atgenhedlu ond rhwng dyn a menyw sydd wedi'u priodi'n gyfreithlon fel gŵr a gwraig.

Datganwn fod y modd y caiff bywyd marwol ei greu wedi'i benodi gan Dduw. Cadarnhawn sancteiddrwydd bywyd a'i phwysigrwydd yng nghynllun tragwyddol Dduw.

Mae gan ŵr a gwraig gyfrifoldeb difrifol i garu a gofalu am ei gilydd ac am eu plant. "Etifeddiaeth gan yr Arglwyddyw plant" (Salm 127:3). Mae gan rieni ddyletswydd sanctaidd i fagu eu plant mewn cariad a chyfiawnder, i ddarparu ar gyfer eu hanghenion corfforol ac ysbrydol, ac i'w dysgu i garu a gwasanaethu ei gilydd, i gadw gorchmynion Duw, ac i fod yn ddinasyddion sy'n ufuddhau i'r gyfraith ble bynnag y maent yn byw. Bydd gwŷr a gwragedd—mamau a thadau—yn atebol gerbron Duw am gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

Mae'r teulu wedi'i ordeinio gan Dduw. Mae priodas rhwng dyn a menyw yn hanfodol i'w gynllun tragwyddol. Mae gan blant hawl i gael eu geni o fewn rhwymau priodas, ac i gael eu magu gan dad a mam sy'n parchu addunedau priodasol gyda ffyddlondeb llwyr. Mae'n fwyaf tebygol y ceir hapusrwydd ym mywyd teuluol pan gaiff ei sefydlu ar ddysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Sefydlir a chynhelir priodasau a theuluoedd llwyddiannus ar egwyddorion ffydd, gweddi, edifeirwch, maddeuant, parch, cariad, tosturi, gwaith, a gweithgareddau hamdden iachus. Yn ôl trefniant dwyfol, mae tadau i lywyddu dros eu teuluoedd mewn cariad a chyfiawnder, ac maent yn gyfrifol am ddarparu anghenion bywyd ac amddiffyniad i'w teuluoedd. Mamau sydd â'r prif gyfrifoldeb am fagu eu plant. Yn y cyfrifoldebau cysegredig hyn, mae dyletswydd ar dadau a mamau i gynorthwyo ei gilydd fel partneriaid cyfartal. Gall anabledd, marwolaeth, neu amgylchiadau eraill olygu bod angen addasiadau unigol. Dylai teuluoedd estynedig roi cymorth pan fo angen.

Rydym yn rhybuddio y bydd unigolion sy'n torri cyfamodau diweirdeb, sy'n cam-drin priod neu blant, neu sy'n methu â chyflawni cyfrifoldebau teuluol, yn atebol gerbron Duw un diwrnod. At hynny, rydym yn rhybuddio y bydd ymchwalu'r teulu yn dwyn ar unigolion, cymunedau a chenhedloedd y trychinebau a ragfynegwyd gan broffwydi hynafol a modern.

Alwadwn ar ddinasyddion cyfrifol a swyddogion llywodraeth ym mhobman i hyrwyddo'r mesurau hynny sydd wedi'u llunio i gynnal a chryfhau'r teulu fel yr uned sylfaenol cymdeithas.

Darllenwyd y datganiad hwn gan Llywydd Gordon B. Hinckley fel rhan o'i neges yng Nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas Cariad Pur a gynhaliwyd ar 23 Medi 1995 yn Salt Lake City, Utah.

Unofficial poster layout of the text published on churchofjesuschrist.org. Not an official publication of The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints. Generated by Urim, urim.samuelbaird.com